Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

**17 Medi 2021**

**Ymateb Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i**

**Gyflwr Plismona: Asesiad Blynyddol o Blismona yng Nghymru a Lloegr 2020**

Yr wyf wedi darllen eich adroddiad â diddordeb, ac yn dymuno mynegi fy nghefnogaeth tuag at rai o’r pwyntiau a godir gennych.

***“Tra bod plismona’r pandemig wedi cyflwyno rhai anawsterau ar gyfer y gwasanaeth, mewn sawl ffordd, roedd yr ymateb yn rhagorol.”***

Fel y mynegais yn fy ymateb i blismona yn y pandemig a gwasanaethau dalfa mewn amgylchedd COVID-19, mae’n galonogol bod Arolygiaeth Ei Mawrhydi wedi cydnabod ymrwymiad, ymroddiad a hyblygrwydd y gwasanaeth plismona drwy’r pandemig.

Ym mis Ebrill y llynedd, cyflwynodd y Prif Gwnstabl a minnau ymateb ar y cyd i alwad am dystiolaeth gan y Pwyllgor Materion Cartref mewn perthynas â pharodrwydd y Swyddfa Gartref ar gyfer COVID-19. O fewn yr ymateb hwn, tynnom sylw at yr heriau yr oedd Heddlu Dyfed-Powys yn arbennig yn wynebu o ganlyniad i ganllawiau dryslyd yn cael eu cyhoeddi ar y funud olaf gan y Llywodraeth Ganolog, a oedd yn aml yn groes i gyngor a phenderfyniadau gweinyddiaethau datganoledig.

***“Fel prif arolygwyr annibynnol, mae pob un ohonom wedi sylwi yn y gorffennol ar beryglon diffyg adnoddau cronig a systematig ar draws y System Cyfiawnder Troseddol. Fel grŵp prif arolygwyr, yr ydym nawr yn ystyried bod COVID-19 wedi arwain at y peryglon hyn yn dod yn argyfyngus”.***

***“Er nad system unigol yw’r system cyfiawnder troseddol, mae angen iddi weithio fel un. Heb gynnydd cyfatebol o ran capasiti, mae’n bosibl na fydd y gwasanaethau erlyn, carchar a phrawf yn medru ymdopi.”***

Yr wyf yn cytuno â’r sylwadau hyn – rhai yr wyf wedi’u hadleisio droeon. Roedd un adeg o’r fath yn cynnwys y dystiolaeth a gyflwynwyd i Gomisiwn Cyfiawnder Cymru yn 2018.

Fel cadeirydd Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol Dyfed-Powys, sy'n cynnwys yr asiantaethau partner allweddol hynny sy'n gweithio yn y system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys yr Heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, llysoedd, carchardai, gwasanaethau prawf a thimoedd troseddau ieuenctid, rwy'n adrodd wrth Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan yn rheolaidd. Yn ystod y pandemig, sefydlwyd cell adfer a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar faterion dioddefwyr a thystion, megis effaith yr ôl-groniad o ran y llysoedd. Ardal Dyfed-Powys oedd un o'r ardaloedd cyntaf yng Nghymru i ymdrin â'r ôl-groniad mewn Llysoedd Ynadon oherwydd COVID-19. Mae'r grŵp yn parhau i gwrdd yn fisol er mwyn trafod cynnydd o ran Llysoedd y Goron.

Mae cynnal hyder cyhoeddus yn effeithlonrwydd y system cyfiawnder troseddol yn ystyriaeth allweddol ar gyfer y BCTLl. Mae'r System Cyfiawnder Troseddol wedi'i heffeithio'n sylweddol gan yr argyfwng COVID-19. O'r herwydd, ystyriodd y Bwrdd ei drefniadau parhad busnes cyfunol ac unrhyw gamau gweithredu yr oedd eu hangen er mwyn mynd i'r afael â pheryglon a ddeuai i'r amlwg.

Ynghyd â Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu eraill Cymru, rwy'n cefnogi Llywodraeth Cymru o ran datblygu nifer o lasbrintiau cyfiawnder yng Nghymru, gan gynnwys ar gyfer troseddwyr benywaidd, troseddau ieuenctid, a thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

***"Canfu gormod o blant a phobl ifainc, yn ogystal â'u rhieni, teuluoedd a gofalwyr, bod yn rhaid iddynt lywio system gymhleth nad oedden nhw a'u hanghenion yn ganolog iddi."***

Mae hwn yn faes rwy'n teimlo'n angerddol iawn amdano, ac rwy'n ymgymryd â nifer o weithgareddau yn y maes hwn i gefnogi gwella gwasanaethau ar gyfer pobl ifainc.

Yn 2018, sefydlais fy Fforwm Ieuenctid, a luniwyd ar gyfer creu cyfleoedd i bobl ifainc gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt a dylanwadu arnynt. Hyd yn hyn, mae ei waith wedi bod yn effeithiol iawn, ac arweiniodd eu gweithgarwch diweddaraf at fideo hyfforddi sy'n rhannu profiadau pobl ifainc am gyswllt â'r heddlu, sydd â'r nod o chwalu rhwystrau a rhagdybiaethau rhwng pobl ifainc a'r heddlu.

Yn ystod 2019/20, rhoddais gyfanswm £52,997 ar gyfer cefnogi prosiectau ledled yr ardal heddlu, gan gynnwys rhaglenni dargyfeirio ieuenctid i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol, targedu dwys mewn

ardaloedd sydd wedi'u heffeithio gan droseddau gwledig, a phrosiectau estyn allan sy'n mynd i'r afael â throseddau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau mewn ardaloedd difreintiedig.

Yr wyf hefyd wedi rhoi tua £180,000 y flwyddyn i reolwyr Troseddau Ieuenctid ac Atal tuag at eu gwaith atal dros y 3 blynedd diwethaf.

Mae fy Mhanel Craffu ar Warediadau y Tu Allan i'r llys yn asesu'r defnydd o warediadau y tu allan i'r llys gan Heddlu Dyfed-Powys, yn craffu arnynt ac yn rheoli eu hansawdd. Mae rhan o waith y panel yn cynnwys adolygu'r ffordd yr ymatebir i ddrwgdybiedigion sy'n blant er mwyn cefnogi'r unigolyn ifanc i beidio â chymryd rhan mewn gweithgarwch troseddol pellach. Rwy'n ymwybodol bod Heddlu Dyfed-Powys yn ymgymryd â gwaith sylweddol mewn perthynas ag ymagwedd tuag at blismona sy'n canolbwyntio ar y plentyn, gan gynnwys gweithio'n agos â chartrefi gofal, unigolion coll, yr economi nos a sefydliadau eraill er mwyn codi ymwybyddiaeth o arwyddion camfanteisio a bregusrwydd. Edrychaf ymlaen at gefnogi ymyriadau o'r natur hwn ymhellach drwy fy Nghynllun Heddlu a Throseddu, sydd ar fin cael ei gyhoeddi.

***"Er mwyn i blismona fod yn effeithiol, rhaid i'r gwasanaethau cyhoeddus eraill fod mor effeithiol ac effeithlon â phosibl. Os nad ydynt, gallai llawer mwy o bobl gael eu denu i droseddu, dod yn rhan o gylchoedd troseddu, dioddef trosedd a cholli hyder yn yr heddlu."***

Dymunaf dynnu sylw at fy mhryder mewn perthynas â Chynllun Trechu Trosedd y Llywodraeth, a gyhoeddwyd ddiwedd Gorffennaf. Er fy mod i'n croesawu ffocws y Llywodraeth ar drosedd, rwy'n amau amcanion y cynllun am sawl rheswm.

Mae'n gynllun uchelgeisiol a phellgyrhaeddol sydd ddim yn ystyried y gofynion presennol ar yr heddlu a gallu heddluoedd i gyflenwi'r amcanion. Mae'r cynllun hwn yn eang iawn ac yn symud tuag at ymdrin â throseddau niferus yn hytrach na blaenoriaethu bygythiad, perygl a niwed.

Ni fydd y bwriad i gyflwyno fframwaith cymhariaeth perfformiad, megis tablau cynghrair, yn adlewyrchu neu'n cydnabod y gwahaniaethau rhwng heddluoedd o ran anghenion lleol.

Mae cyfeiriad at drais difrifol o fewn y cynllun hwn, er enghraifft, yn gysylltiedig â chyllyll, drylliau a'r farchnad gyffuriau, a reolir gan gangiau,

tra bod prif achos troseddau treisgar yn ardal Dyfed-Powys yn gysylltiedig â materion domestig. Nid yw'r Cynllun Trechu Trosedd yn gwahaniaethu rhwng y ddau fath.

Ni allaf weld y bydd cynllun y Llywodraeth yn ychwanegu gwerth at yr hyn sydd gennym mewn grym yn barod yma yn ardal Dyfed-Powys o dan arweinyddiaeth y Prif Gwnstabl a minnau, ac rwy'n ofni bydd yr arian y sonnir amdano'n canolbwyntio ar flaenoriaethau cenedlaethol, sy'n gyson â phroblemau trefol yn gyffredinol, yn hytrach nag anghenion cymunedol fan hyn yn ardal Dyfed-Powys.

Diolch i chi a'ch tîm unwaith yn rhagor am gyfleu'r materion hollbwysig sy'n effeithio ar blismona mewn geiriau.